

Bethan Jenkins AC

Cynnig am Fil Llythrennedd Ariannol (Cymru)

Crynodeb o'r Gwaith Allgymorth

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r gwaith allgymorth a wnaed fel rhan o ymgynghoriad ar Fil arfaethedig Bethan Jenkins AC ar Lythrennedd Ariannol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar gynnig am Fil Llythrennedd Ariannol (Cymru) hyrwyddodd y tîm Allgymorth ddau holiadur wedi eu hanelu at y cyhoedd a disgyblion ysgolion uwchradd ar ran Bethan Jenkins AC. Roedd yr arolwg yn cynnwys dau holiadur ar bapur.

Roedd yr holiaduron yn canolbwyntio ar dair agwedd allweddol ar y Bil arfaethedig, sef:

- cynnwys addysg ariannol yng nghwricwlwm ysgolion;
- gosod dyletswydd ar rai cyrff statudol i hyrwyddo arferion ariannol da;
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu cyngor ariannol i bobl.

Roedd y ddau holiadur yn gofyn am farn am sut i ddatblygu'r cynigion ynghylch y Bil newydd hwn.

Roedd yr holiadur cyntaf - **a oedd yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol** - yn gofyn am farn ar cynnigion y Bil yn ogystal ag unrhyw syniadau eraill am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Bil a sut y dylem hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol.

Roedd yr ail holiadur - **a oedd yn targedu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd** - yn gofyn cwestiynau cyffredinol am eu dealltwriaeth o'r system ariannol a chyllido, yn ogystal â chwestiynau ynghylch addysgu pobl i reoli arian yn effeithiol a sut y dylem hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol.



Ystadegau Allweddol

761 Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd drwy ymgysylltu

464 Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

279 Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan y cyhoedd


185 Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan ddisgyblion ysgol uwchradd

10 Cyfanswm yr ysgolion a wnaeth gymryd rhan trwy'r Gwasanaeth Addysg

5 Cyfanswm y sioeau cenedlaethol a rhanbarthol lle cafodd yr holiaduron eu hyrwyddo

Cyfanswm y Rhai a Gymerodd Ran yn ôl Rhanbarth

Mae'r diagram hwn yn dangos **cyfanswm** y bobl yr **ymgysylltwyd â nhw'n uniongyrchol** fel rhan o ymgynghoriad y Bil Llythrennedd Ariannol.



Dadansoddiad

Cyfanswm yr ymatebion gan y cyhoedd ygysylltwyd â yn nigwyddiadau'r haf, yn ôl rhanbarth:

- Gogledd Cymru: 57
- Canolbarth a Gorllewin Cymru: 0
- Gorllewin De Cymru: 0
- Canol De Cymru: 2
- Dwyrain De Cymru: 9

Cyfanswm nifer o bobol ifanc a ymgysylltwyd â nhw drwy ysgolion yn ôl rhanbarth:

- Gogledd Cymru: 170
- Canolbarth a Gorllewin Cymru: 123
- Gorllewin De Cymru: 176
- Canol De Cymru: 226
- Dwyrain De Cymru: 0



Bethan Jenkins AC

Cynnig am Fil Llythrennedd Ariannol (Cymru)

Crynodeb o'r Ymatebion

Methodoleg

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Llythrennedd Ariannol (Cymru) lluniodd y tîm Allgymorth ddau holiadur ar gynigion y Bil newydd i roi addysg ariannol yng nghwricwlwm ysgolion a sut y dylem hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol.

Er ei fod yn arolwg agored, targedwyd y cynulleidfaoedd canlynol yn bennaf:

- **y cyhoedd** (trwy sioeau haf a teithiau a grŵpiau'n ymweld â'r Senedd).
- **plant a phobl ifanc** (trwy Wasanaeth Addysg y Cynulliad).


Mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg wedi'u cynnwys yn y ddwy adran ganlynol. Mae rhan 1 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd ac mae rhan 2 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc oed ysgol.



Rhan 1 – Crynodeb o'r Ymatebion a Gafwyd gan y Cyhoedd

Cwestiwn 1 – Beth yw eich barn chi am fy nghynnig am ddeddf newydd?

- Syniad da/ardderchog: 272 (97%)
- Syniad gwael: 2 (1%)
- Nid wyf yn sicr: 5 (2%)



Roedd 272 o'r rhai a lenwodd yr holiadur **o blaid** y ddeddf arfaethedig gan nodi'r canlynol, ymysg rhesymau eraill:

- pwysigrwydd addysgu pobl ifanc am werth arian, a sut i'w reoli'n effeithiol ar ôl gadael byd addysg.
- yr angen i baratoi pobl ifanc ynghylch cost gwirioneddol byw unwaith y byddan nhw'n gyfrifol am ofalu am arian ar gyfer pethau eraill.
- dylid rhoi rhagor o gymorth i'r rhai sydd mewn trafferthion ariannol, ac fe fyddai trefn reoleiddio mwy llym ar gyfer cwmnïau benthycwyr diwrnod cyflog yn sicrhau y gallai pobl wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth wrth fenthyg arian.




Roedd pump o'r rhai a lenwodd yr holiadur yn ansicr am y cynnig, ac roedd dau yn erbyn y cynnig ac yn nodi:

- na fyddai'n gwneud dim gwahaniaeth iddyn nhw'n bersonol.
- mae pobl ifanc o dan bwysau'n barod o dan y cwricwlwm presennol ac fe fyddai ychwanegu gwers "sgiliau" arall yn gwneud hynny'n waeth.



Cwestiwn 2 – Pa syniadau eraill a ddylem ni ystyried eu cynnwys yn y ddeddf newydd?



O'r sylwadau a wnaed:


- nododd 76 o gyfranogwr y dylai'r gyfraith newydd sicrhau bod pob agwedd ar gyllido yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm. Byddai hynny'n cynnwys addysgu pobl ifanc ynghylch canrannau'r gyfradd ganrannol flynyddol, yr APR, gwneud cais am forgeisi a'u talu a buddsoddiadau.
- dadleuodd 18 o bobl y dylai dosbarthiadau ariannol gael eu cynnal yn y gymuned, gan gynnwys rhoi cymorth a chynghor cyffredinol i'r rhai sydd am wella eu sefyllfa ariannol.
- gwnaed 16 o sylwadau yn ymwneud â'r angen i fanciau fod yn fwy tryloyw ynghylch gwir gost benthyca, naill ai drwy ddarparu crynodeb o gyfanswm y benthyciad (gan gynnwys y gyfradd llog) neu drwy wneud gwybodaeth ariannol yn haws ei deall.
- dadleuodd saith o bobl dros annog defnyddio Undebau Credyd (yn hytrach na benthycwyr traddodiadol neu fenthycwyr diwrnod cyflog).



- nododd chwech y dylai'r gyfraith newydd wneud darpariaethau ar gyfer rheoleiddio'r sector bancio ac ariannol yn llymach.
- nododd pump o bobl, yng ngoleuni'r cynnig, y dylid gwneud rhagor i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r newidiadau posibl a ddaw o ganlyniad i'r gyfraith newydd.
- cynigiodd pedwar o bobl y dylai'r gyfraith newydd gynyddu'r isafswm oed ar gyfer unigolion sy'n gwneud cais am gredyd.
- mewn pedwar sylw, nodwyd y dylid rhoi cap ar gyfraddau llog sy'n cyd-fynd â chytundebau benthyg (yn enwedig i'r rhai sy'n benthyg am y tro cyntaf).
- awgrymodd un person y dylai'r gyfraith newydd annog gwaith aml-asiantaeth rhwng awdurdodau lleol a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wrth roi cyngor ariannol i'r cyhoedd.



Cwestiwn 3 – Sut gallwn ni hyrwyddo arferion ariannol da?




O'r sylwadau a wnaed:

- cytunodd 131 o'r rhai a lenwodd yr holiadur y dylid hyrwyddo arferion ariannol da drwy ysgolion, prifysgolion a thrwy addysg oedolion.
- nododd 50 o bobl y byddai modd defnyddio'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol (sy'n cynnwys Facebook, Twitter, Aps a'r Teledu) i hyrwyddo arferion ariannol da.
- gwnaed 24 sylw y dylid hyrwyddo hynny drwy ddigwyddiadau cyhoeddus a gweithdai yn y gymuned, ac y byddai hynny'n cynnwys pob mater ariannol gan gynnwys llunio cyllidebau, gwario a benthycia.
- dadleuodd pedwar o bobl os caiff arferion ariannol da eu hyrwyddo, bod lle i ddadlau y dylid gwahardd cwmnïau diwrnod cyflog rhag hysbysebu.
- roedd pedwar yn teimlo y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwain drwy esiampl wrth hyrwyddo arferion ariannol da, drwy roi sylw i sut mae Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu gwario'r gyllideb a chyhoeddi hynny.
- roedd dau o'r sylwadau'n mynegi teimlad y dylid peidio ag annog dibyniaeth ar y system fudd-daliadau, ac y dylid addysgu pobl nad yw'n ffordd dda o gynnal sefydlogrwydd ariannol.
- dadleuodd dau o bobl, eto, y dylid annog a hyrwyddo arferion ariannol da drwy ddefnyddio Undebau Credyd.



Cwestiwn 4 - A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?



O'r sylwadau a wnaed:


- pwysleisiodd naw o'r cyhoedd eu cefnogaeth i'r cynnig newydd am gyfraith ynghylch llythrennedd ariannol.
- dadleuodd pedwar o bobl y dylai addysgu llythrennedd ariannol fod yn hwyl, yn ymarferol ac mor ddiddorol â phosibl i ddisgyblion.
- roedd dau o bobl yn teimlo y dylid rhoi rhagor o gymorth i fentrau bach a chanolig eu maint.
- nododd dau y dylid gwahardd cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn gyfan gwbl.
- roedd dau o'r cyhoedd yn teimlo y dylai rhagor o gyrsiau fod ar gael i'r rhai sydd eisoes mewn trafferthion ariannol.
- nododd un person, yng ngoleuni'r cynnig, y dylid gwneud rhagor i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r newidiadau posibl a ddaw o ganlyniad i'r gyfraith newydd.
- nododd un person y dylid peidio ag annog pobl i ddibynnu ar y system fudd-daliadau i gael sefydlogrwydd ariannol.



Rhan 2 – Crynodeb o'r Ymatebion a Gafwyd gan Blant a Phobl Ifanc Oed Ysgol

Cwestiwn 1 – ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael digon o addysg am sut i reoli eich arian yn effeithiol?

- Ydw: 42 (23%)
- Nac ydw: 143 (77%)




O'r 185 a lenwodd yr holiadur:

- roedd 143 o bobl yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o addysg am sut i reoli eu harian yn effeithiol.
- nododd 42 o bobl eu bod wedi cael digon o addysg am sut i reoli eu harian yn effeithiol.



Cwestiwn 2 – Ydych chi'n teimlo eich bod yn meddu ar ddigon o wybodaeth am a dealltwriaeth o'r system ariannol er mwyn gallu rheoli eich arian yn effeithiol ac yn synhwyrol?

- Ydw: 61 (33%)
- Nac ydw: 124 (67%)




O'r 185 a lenwodd yr holiadur:

- roedd 124 o bobl yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am y system ariannol na dealltwriaeth ohoni i reoli eu harian yn synhwyrol ac yn effeithiol.
- nododd 61 o bobl fod ganddynt ddigon o wybodaeth am y system ariannol a dealltwriaeth ohoni i reoli eu harian yn synhwyrol ac yn effeithiol.



Cwestiwn 3 – Ydych chi'n ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio benthycwyr byrdymor (payday lenders)?

- Ydw: 129 (70%)
- Nac ydw: 56 (30%)




O'r 185 a lenwodd yr holiadur:

- roedd 129 o bobl yn teimlo eu bod yn ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio benthycwyr byrdymor.
- nododd 56 o bobl nad oeddent yn ymwybodol o'r peryglon o ddefnyddio benthycwyr byrdymor.



Cwestiwn 4 – Ydych chi'n deall y costau y byddwch yn eu hwynebu yn y dyfodol a sut y byddant yn dod i'ch tâl misol dan straen?

- Ydw: 117 (63%)
- Nac ydw: 68 (37%)




O'r 185 a lenwodd yr holiadur:

- roedd 117 yn teimlo eu bod yn deall y costau y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol a sut fyddai hynny'n rhoi pwysau ar eu cyllideb fisol.
- nododd 68 nad oeddent yn deall y costau y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol a sut fyddai hynny'n rhoi pwysau ar eu cyllideb fisol.



Cwestiwn 5 – Beth yw'r ffordd orau o'ch addysgu chi am reoli arian yn effeithiol?
Cwestiwn 8 – Beth ydych chi'n meddwl y gallwn wneud er mwyn hybu arferion ariannol cyfrifol?



Er hwylustod, ystyriwyd cwestiynau 5 ac 8 gyda'i gilydd.

O'r sylwadau a wnaed:

- nododd 216 y byddai cael sgysiau yn yr ysgol gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ariannol yn ffordd effeithiol o addysgu disgyblion am reoli arian yn effeithiol. Byddai'r profiad ymarferol hwn yn helpu i hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol.
- dadleuodd 39 o bobl y byddai modd defnyddio'r cyfryngau ac ymgyrchoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ac addysgu sgiliau rheoli arian yn effeithiol. Byddai'r rhain yn cynnwys hysbysebion teledu a defnyddio Twitter, Facebook ac Aps.
- roedd 23 o'r rhai a lenwodd yr holiadur yn teimlo mai'r ffordd orau o addysgu byddai drwy gael cyflwyniadau gan bobl sydd wedi cael trafferthion ariannol sylweddol.
- roedd 19 yn dadlau dros wahardd cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog, a'r angen i rybuddio pobl am y peryglon o ddefnyddio benthycwyr byrdymor.




- nododd 19 o bobl y gallai rhieni wneud mwy wrth addysgu pobl ifanc am sut i reoli arian yn effeithiol, ac y dylid annog y drafodaeth hon yn y cartref.
- roedd 10 o bobl yn dadlau y dylid defnyddio dosbarthiadau mathemateg i addysgu a hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol.
- roedd naw yn teimlo y dylai rhagor o gyngor a gwybodaeth fod ar gael i bobl ifanc am reoli arian yn effeithiol.
- roedd naw o bobl yn dadlau y dylid annog bobl ifanc ymhellach i ofalu am eu harian a'u harferion ariannol.
- roedd chwech yn dadlau y dylid sefydlu gweithdai a chlybiau ar ôl ysgol i'r rhai sydd am ddysgu rhagor am reoli arian yn effeithiol.



Cwestiwn 6 – O ran dysgu am reoli arian, beth ydych chi'n credu sydd bwysicaf i'w ddysgu?

Cwestiwn 7 – Beth hoffech chi ei ddysgu am reoli arian yn effeithiol ac yn synhwyrol?



Er hwylystod, ystyriwyd cwestiynau 6 ac 7 gyda'i gilydd.

O'r sylwadau a wnaed:

- nododd 109 y byddent yn hoffi dysgu, a'i fod yn bwysig iawn dysgu am sut i reoli arian yn synhwyrol ac i lunio cyllideb sy'n glynu at yr arian sydd gennych.
- dadleuodd 73 o bobl y dylent gael rhagor o addysg am gost gwirioneddol byw. Byddai hynny'n cynnwys addysgu pobl ifanc ynghylch sut i dalu biliau cyfleustodau, morgesi a benthyciadau.
- roedd 64 o'r rhai a lenwodd yr holiadur yn dadlau y dylid dysgu pobl ifanc am arbedion a sut i agor cyfrif cynilo.
- roedd 25 o bobl yn teimlo y byddent yn hoffi dysgu am ganlyniadau peidio â rheoli arian yn synhwyrol.
- nododd 15 eu bod am wybod rhagor am fenthyciadau diwrnod cyflog a sut maen nhw'n gweithio/ddim yn gweithio o ran rheoli arian.



- dadleuodd pump o bobl y dylid dysgu pobl ifanc ynghylch sut mae banciau'n gwneud arian ac elw gan eu cwsmeriaid.
- roedd tri o bobl yn dadlau y dylid addysgu pobl ifanc ynghylch mathemateg ariannol sylfaenol, a fyddai'n cynnwys dysgu sut mae cyfrifo APR a chyfraddau llog sylfaenol.

